

Canllawiau ar Reolaeth, Adfer
a Chreu

Llynnoedd, Pyllau a Chynefinoedd Dŵr Dros Dro

Bwriedir i'r ddalen arfer da hon fod yn arweiniad sylfaenol ar gyfer perchnogion tir a rheolwyr tir i gadw a hyrwyddo gwerth bioamrywiaeth Llynnoedd, Pyllau a Chynefin Dŵr Dros Dro a helpu i sicrhau eu dyfodol. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys cyngor ar Llynnoedd Mesotroffig yn ogystal â Phyllau a Chynefin Dŵr Dros Dro fel cynefinoedd blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Gyfunol a hefyd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Blaenau Gwent gan y bu gostyngiad difrifol yn ei niferoedd yn genedlaethol ac yn lleol.

Yn syml, mae **bioamrywiaeth** yn golygu 'popeth byw'. Mae'n cyfeirio at amrywiaeth cyfoethog y planhigion ac anifeiliaid gwyllt o'n cwmpas ynghyd â'r cynefinoedd sy'n eu cefnogi.

Mae Rhywogaethau Blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gysylltiedig gyda'r Cynefin hwn yn cynnwys:

Ystum Barbastelle	Madfall cribog mawr
Dyfrgi	Madfall palmwydd
Ystum Pipistrelle	Gwas y neidr hardd
Llygoden Dŵr	Hebogwr
Bach corsen	Mursen llygad coch
Cochiad	Mursen prin cynffon las
Llyffant cyffredin	Mursen amrywiol
Broga cyffredin	Ffeuen y gors



Llygoden ddŵr

© A Harrington

Disgrifiad Cynefin

Diffinnir llynnoedd fel cyrff dŵr parhaol naturiol o 1ha neu fwy. Mae cronfeydd hefyd yn gyrrff parhaol o ddŵr ond cawsant eu codi'n artiffisial. Mae pyllau yn gyrrff dŵr bach, yn naturiol a gwneuthuredig. Mae'r rhan fwyaf o byllau yn nodweddion dros dro yng nghefn gwlad, a byddant yn troi'n dir sych maes o law, er fod rhai yn gynefinoedd hynafol a parhaol. Gall pyllau amrywio o cyn lleied â 1m diamedr i gymaint â 2ha, a

chefnogi amrediad eang o fathau cynefin, yn cynnwys gweithiau mwyn bychan dan ddŵr a phyllau mwynog ar dir uchel. Maent yn gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig ar gyfer amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid gwlypdir, llawer ohonynt yn absennol neu'n anghyffredin mewn afonydd neu llynnoedd. Dros y ganrif diwethaf, bu gostyngiad yn nifer y pyllau oherwydd iddynt gael eu sychu, eu llenwi'n fwriadol draeniad tir a diraddio gan llygredd. Mae maint bychan y pyllau yn aml yn golygu eu bod yn agored i niwed.

Gall cyrff dŵr fod yn fesotroffig, ewtroffig neu oligotroffig. Mae mesotroffig yn golygu "maeth canolig" ac yn cyfeirio at ddŵr sydd â lefel ganolig o faethion hydawdd. Mae gan ddyfroedd ewtroffig lefelau uchel o faethion ac mae gan ddyfroedd oligotroffig grynoadau isel o faethion. O'r holl fathau o gynefinoedd dŵr, dyfroedd mesotroffig a all gynnal yr amrywiaeth fwyaf o blanhigion ac anifeiliaid, ond maent yn arbennig o sensitif i ymyriad gan weithgareddau sy'n cynyddu lefel y maethion.

Ffactorau yn Effeithio ar Gynefin

- Mewnlenwi fel canlyniad i amaethyddiaeth neu ymlediad ardaloedd trefol.
- Gostwng lefelau dŵr gan ordynnu dŵr wyneb neu ddaear, neu drwy ddraeniad.
- Ewtroffiad (lefelau maeth uchel) a achosir yn bennaf gan nitradau neu ffosffadau mewn carthffosion neu ddŵr yn rhedeg o wrtaith. Tyfiant algaidd gwyrddlas yw prif symptom ewtroffiad.
- Llygredd (yn cynnwys dŵr glofeydd a gwibdafllu). Arwyddion llygredd yn cynnwys haenolew, ewyn neu arogl annymunol.
- Rheolaeth anaddas neu esgeulustod.
- Newidiadau yn nefnydd y tir o gwmpas sy'n newid y tabl dŵr ac yn arwain at erydu tir gan ychwanegu maethion a gwneud y dŵr yn llai clir. Un enghraifft yw aredig cynefinoedd cyfagos.



Tyfiant algaidd glaswyrdd – Arwydd clir o gyfoethogi maethion

© Peter Wakely-EN

Arfer da

Diogelu a chadw unrhyw lynnoedd, pyllau a/neu chynefinoedd dros dro ar eich tir drwy:

- Atal dŵr yn rhedeg o lygredd ar dir fferm, ffyrdd ac ardaloedd trefol a all achosi mewnbwn maeth gormodol (ewtroffiad). Mewn achosion lle mae llygredd yn wael iawn ac mae pwll bron heb fywyd, gall fod yn well gadael i'r pwll ddatblygu yn gors a thyllu llyn neu bwll newydd mewn ardal gyda chyflenwad dŵr cliriach.
- Os caiff eich corff dŵr ei lygru o ffynhonnell allanol, dylech geisio canfod o ble mae'n dod. Os caiff ei fwydo gan nant, dylech gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd i gael cyngor.
- Osgowch ddefnyddio gwrtaith, dom a phlaladdwyr yn agos at ardal lle mae dŵr yn sefyll. Sefydlwch barth gwahanu o dir heb ei wrhteithio a'i chwistrellu rhwng y llyn/pwll a'r ardal o amgylch. Gall hyn gynnwys tyfiant tal megis tir glas cyffredin, gwrychoedd ac ysgwrfa. Gorau po letaf y parth gwahanu. Ar dir amaethyddol, fel arfer mae sribedyn o rhwng 10-20m yn dderbyniol.



Pwll gyda gorchudd tyfiant ymylol da

© Peter Wakely-EN

- Anogwch fosaig amrywiol o blanhigion ymylol a dyfrol ynghyd â rhai ardaloedd o ddŵr agored a fydd o fudd i fadfallod ac adar dŵr gwyllt. Ceisiwch beidio cael mwy na tua thraean o ddŵr agored. Targed da i anelu ato yw tua 5% o arwynebedd y llyn/pwll yn cefnogi planhigion ymylol, 10-25% yn cefnogi planhigion dŵr gyda dail ar yr wyneb neu'n agos at y wyneb, a 25-50% yn cefnogi chwyn o dan y dŵr.
- Atal colled a difrod i dyfiant ymylol ac ar y glannau drwy dda byw yn pori, gwyddau Canada neu bobl yn cerdded, drwy ffensio glannau lle'n addas, gan roi ardaloedd i dda byw yfed ohonynt. Dylai ffensys gael eu gosod hyd at 10m yn ôl o frig y lan. Cofiwch, bydd ffensiau o fewn y gorlifdir angen caniatâd draeniad tir gan Asiantaeth yr Amgylchedd.



© Peter Wakely-EN

Pwll ffarm newydd a grëwyd ac a ffensiwyd i atal da byw rhag pori'r tyfiant

- Ni ddylai symiau cymhedrol o alga edefynnaidd a bwyd hwyaid achosi pryder. Fodd bynnag, mae tyfiant algaidd a thwf gormodol a pharhaol yn arwydd fod y pwll wedi'i lygru'n wael gyda maethion. Gall tynnu'r planhigion hyn yn rheolaidd helpu i ostwng maethion.

- Bydd ardaloedd o goed a pherthi brodorol o amgylch y pwll yn ategu'r cynefin dyfrol. Fodd bynnag, gall cyrff dŵr gyda llawer o gysgod fanteisio o dynnu rhai coedydd. Byddai hyn yn cynyddu amrywiaeth y cynefinoedd drwy greu ardaloedd llan-nerch, a gostwng crynhoi tyfiant a llaid. Dylid symud coed o'r ochr ddeheuol, ond eu plannu a'u chynnal ar yr ochr ogleddol cyhyd â bod wedi eu lleoli ymaith o bwll. Mae gan rai coed Orchmynion Cadw Coed (TPO) felly holwch Gyngor Bwrdeisdref Blaenau Gwent yn gyntaf.

- Osgowch gyflwyno planhigion heb fod yn frodorol megis chwyn llyn Canada (*Elodea canadensis*), rhedyn dŵr (*Azolla filiculoides*) a chnwd carreg cors (*Crassula helmsii*) gan y gall hyn dyfu'n gyflym dros gyrff dŵr gan gau rhywogaethau brodorol allan. Os yn ymledol, triniwch gyda phlaladdwr addas. Bydd angen cymeradwyaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.

- Mae lefelau dŵr yn cynyddu'n naturiol yn y gaeaf ac yn disgyn yn yr haf a gall rhai pyllau sychu yn llwyr. Mae gostyngiad o hyd at hanner metr mewn lefelau dŵr yn gyffredin a dymunol. Mae llawer o blanhigion dŵr megis mintys dŵr yn ffynnu pan fo lefelau dŵr yn gostwng ychydig. Caiff ardaloedd o draeth moel hefyd ei ddefnyddio gan lawer mathau o bryfed felly mae gadael i lefelau dŵr amrywio drwy'r tymhorau o fudd i blanhigion a hefyd anifeiliaid ymylol.

- Yr amser gorau i wneud unrhyw waith treillio neu symud tyfiant i leihau difrod yw'r hydref gan osgoi'r prif gyfnod bridio anifeiliaid ac amffibiaid (Mawrth i Gorffennaf). Ni ddylid treillio yn y gaeaf gan y bydd llyffantod ac anifeiliaid eraill yn cysgu yn y mwd. Mae'n well tynnu tyfiant gyda llaw mewn pyl-lau bach. Cliriwch ran yn unig o'r corff dŵr ar unrhyw adeg, efallai heb fod yn fwy na chwarter mewn unrhyw flwyddyn, a pheidwch symud unrhyw fath o gynefin yn llwyr. Dylai sawl blwyddyn fynd heibio cyn treillio eto.



Symud tyfiant gyda llaw

- Mae llynnoedd/pyllau gyda llawer o bysgod yn aml yn dioddef o dyfiant algaidd ac ychydig o anifeiliaid a phlanhigion sydd ganddynt. Felly peidiwch cyflwyno pysgod i gyrff dŵr nad oedd dŵr ynddynt yn flaenorol, a cheisio gostwng nifer pysgod mewn gyrff dŵr sydd wedi eu gorstocio.

Creu Llynnoedd, Pyllau a Chynefinoedd Dŵr Dros Dro newydd drwy:

- Lleoli eich llyn/pwll yn ofalus, gan wneud yn siŵr na fydd yn dinistrio rhywbeth sydd eisoes yn dda i fywyd gwylt megis hen ddol blodau gwylt, osgoi'r cysgod, ceisiwch leoli'r llyn/pwll mewn man heulog a chysgodol ac osgoi coed dros y dŵr gan y bydd hyn yn gostwng faint o ocsigen sydd yn y pwll.



© Paul Clendell-EN

Pwll newydd mewn ffermdir

- Cynyddu'r defnydd o ddŵr bas (llai na 0.4m o ddyfnder o amgylch ochr y pwll drwy ymgorffori llethr bas, myl donnog, ac ymestyn yr myl i gynnwys baeau a thafodau. Bydd dŵr bas yn annog amrywiaeth o fywyd gwylt yn cynnwys tyfiant mylol a ddyfriol ac infertebrau.
- Mae uchafswm dyfnder dŵr o 1m fel arfer yn ddigonol ar gyfer pyllau bach, ac uchafswm dyfnder dŵr o 1.5 i 2m ar gyfer cyrff dŵr mwy.
- Os oes angen, gall dyluniad llynnoedd/pwll gynnwys nodweddion i annog grwpiau neilltuol o blanhigion neu anifeiliaid megis gwas y neidr neu amffibiaid. Mae gwas y neidr fel arfer yn bridio mewn pyllau bas, cysgodol wedi eu diogelu o'r gwynt gydag arwynebedd o 12 metr sgwâr neu drosodd, a dyfnder dŵr o tua 60cm. Mae amffibiaid yn hoffi pyllau mawr o tua 60m mewn dyfnder gyda digonedd o leoedd bas (10cm neu lai) a fydd yn cynhesu'n gyflym yn yr haul. Ar gyfer madfallod cribog mawr, dylai arwynebedd llynnoedd/pyllau fod dros 25 metr sgwâr a bod o leiaf 1m mewn dyfnder ar y pwynt dyfnaf.



© Peter Wokely-EN

Pyllau delfrydol ar gyfer madfallod cribog mawr.

- Os yn cynllunio ar gyfer gwas y neidr ac amffibiaid, peidiwch stocio gyda pysgod. Bydd y pysgod yn bwyta cynrhon gwas y neidr a phenbyliaid llyffantod a madfallod. Gall hyd yn oed crethyll ddileu madfallod mewn corff dŵr newydd.
- Ar lynnoedd/pyllau mawr, rhochw ynysodd fel llochesi bywyd gwylt. Dylai ynysodd gael traeth estynedig gyda chysgod o'r gwynt a bod ar dir isel gyda glannau bychan i'w gwneud yn rhwydd o'r dwyrain i adar dŵr gwylt. Ynysodd moel sydd orau ar gyfer denu adar hirgoes, ac ynysodd gyda thyfiant i ddenu adar dŵr gwylt.



© Paul Clendell-EN

Pyllau a gynlluniwyd ar gyfer adar hirgoes ac adar dŵr gwylt gydag ynysodd moel.

- Edrychwch am gyfleoedd i greu ardaloedd o gorsle, yn arbennig mewn ardaloedd helaeth ar rannau mwy o ddŵr. Medrir sefydlu cors cyffredin trwy blannu hadau o ffynhonnell corsle leol neu blannu planhigion a dyfwyd mewn potiau, rhisomau neu doriadau bonyn. Medrid hefyd brynu matin torchog yn defnyddio cors. Dylid gwneud hyn yn Ebrill/Mai. Gall fod angen rheoli pori gyda stoc yn ystod y cyfnodau cynnar.



© Peter Wakely-EN

Llyn gydag ardaloedd helaeth o gorsle

- Os yn bosibl, ceisiwch adeiladu sawl llyn/pwll gyda'i gilydd, gan amrywio mewn maint a dyfnder. Hefyd, gwnewch rai parhaol (dŵr drwy gydol y flwyddyn) a rhai dros dro (sychu yn ystod misoedd yr haf).
- Dylai llynnoedd/pyllau a gaiff eu bwydo gan nant gynnwys trap llaid i'w rhwystro rhag lleidio. Bydd llynnoedd/pyllau a fwydir gan nant angen caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Cynyddwch faint o gynefin lled-naturiol sydd o amgylch y pwll. Bydd ardaloedd ysgwrfa, perlaysiau tal, tir glas garw a dolydd blodau gwyllt yn rhoi cynefin ar gyfer anifeiliaid (e.e. amffibiaid) yn defnyddio'r pwll, yn ogystal â pharth gwahanu i helpu i ddiogelu'r pwll o fewnbynau maethion uchel. Dylai parthau gwahanu fod o leiaf 20m mewn lled.
- Mae'n well gadael i Llynnoedd, Pyllau a Chynefinoedd Dŵr Dros Dro gael eu coloneiddio'n naturiol. Fodd bynnag, os dymunir, medrir cyflymu'r broses drwy gyflwyniadau dethol. Dim ond rhywogaethau planhigion brodorol y dylid eu cyflwyno ac sy'n lleol i'r ardal (e./e. o byllau lleol) ac sy'n addas i faint y dŵr.

Dalier sylw: mae'r argymhellion o fewn y ddalen hon ar gyfer arweiniad yn unig. Oherwydd cymhlethdod coetiroedd unigol a'r rhyngweithiau o'u mewn, fe'ch cyngorir i geisio cyngor arbenigol gan sefydliadau perthnasol o'r camau cynnar. Medrir hefyd lawrlwytho'r ddalen hon o wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Blaenau Gwent 'Gwe Bywyd'. Medrir cyrchu hyn drwy www.blaenau-gwent.gov.uk

Peidiwch gwneud unrhyw un o'r pethau dilynol heb ofyn am gyngor pellach yn gyntaf:

- Gwneud unrhyw waith llenwi, peirianeg a thynnu llaid.
- Alldynnu dŵr, gosod unrhyw ddraeniad newydd neu ostwng lefelau dŵr presennol.
- Gwneud unrhyw ddull o sefydlogi neu ddiogelu glannau.
- Gosod plaladdwyr neu chwynladdwyr o fewn 10m o Llynnoedd, Pyllau a Chynefinoedd Dŵr Dros Dro, os nad yn trin chwyn unigol. Bydd angen caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd i ddefnyddio plaladdwyr ar neu'n agos at gyrff dŵr.
- Gosod unrhyw wrtaith anorganig neu organig, megis dom fferm, biswail, llaid carthion, dom ieir neu bysg mâl o fewn 10m o unrhyw Lyn, Pwll a Chynefinoedd Dŵr dros dro.
- Cyflwyno pysgod, yn arbennig pysgod yn bwyta ar y gwaelod megis cerpyn arwain at lefelau uchel o dyfiant algaid.
- Newidiadau yn nefydd y tir o amgylch sy'n newid y tabl dŵr ac yn arwain at erydu pridd sy'n ychwanegu maethion ac yn gwneud y dŵr yn llai clir. Un enghraifft yw troi tir glas yn ymlai a chynefinoedd o amgylch.

Mathau Rhywogaeth ar gyfer Llynnoedd a Phyllau

Mae'r mathau dilynol o blanhigion yn gyffredin ledled Blaenau Gwent a medrir eu trawsblannu i llynnoedd a phyllau newydd.

* Rhy ymledol ar gyfer pyllau bach.

Planhigion Tir Sych/Glan	Planhigion Tir Gwlyb/Ymyl	Planhigion Dŵr	
		Planhigion Ymylol	Planhigion dan y dŵr ac ar yr wyneb
Cywarch agrimoni	Angelica Llysiau'r Sipsiwn Gold y gors Erwain chwys Gwyarllys Blodau'r brain Gwrnerth y dŵr Glas y gors	Glanwraidd goch Cleddyflys ceinciog* Llyriad y dŵr cyffredin Brwyn blodeuog Corsten amrywiol* Perwellt cors* Mintys dŵr* Gellesgen felen	Chwyn pwll deilen tydan* Cyrnddail dŵr cyffredin Llinesg y dŵr cyffredin Milddail dŵr pigog

Cyngor Pellach



Partneriaeth Bioamrywiaeth Blaenau Gwent

Rhoi cyngor ar adfer cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth o fewn y Fwrdeisdref Sirol.

Ffôn: 01495 355702

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Gweinyddu'r Cynllun Grant Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n cynnig grantiau bychan hyd at £2,000 i berchnogion tir a grwpiau cymunedol ar gyfer prosiectau bioamrywiaeth.

Ffôn: 01495 356070

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW)

Gweinyddu Cynllun Amaeth-Amgylchedd Tir Gofal lle mae grantiau ar gael ar gyfer amrediad eang o waith rheolaeth cynefin ar ffermydd.

Ffôn: 02920 772400

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Gweinyddu caniatâd chwynladdwyr ger llwybrau dŵr **Ffôn: 08708 506506** ac yn rhedeg y Llinell Arbennig Llygredd **Ffôn: 0800 807060**